



Gallwch gael gwybod am Credyd Pensiwn yn [www.gov.uk/credyd-pensiwn](http://www.gov.uk/credyd-pensiwn)  
Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r wefan.

## **A allaf gael Credyd Pensiwn?**

Gallwch gael Credyd Pensiwn os ydych wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso.

Os cawsoch eich geni:

- cyn 6 Rhagfyr 1953, mae hyn yr un fath ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer menywod
- ar 6 Rhagfyr 1953 neu ar ôl hynny, dyma yw eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Darganfyddwch eich oedran Credyd Pensiwn yn [www.gov.uk/state-pension-age](http://www.gov.uk/state-pension-age)

Hyd at 14 Mai 2019, os oes gennych bartner a dim ond un ohonoch sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso Credyd Pensiwn, gallwch wneud cais. Rhaid i'r person sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso fod yn un sy'n gwneud cais.

O 15 Mai 2019, os oes gennych bartner ac rydych am ddechrau cael Credyd Pensiwn, fel arfer bydd angen i chi a'ch partner fod wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso.

Os nad yw'ch partner wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso, efallai y byddwch chi'n dal i allu dechrau cael Credyd Pensiwn o 15 Mai 2019 neu'n hwyrach os, ar y diwrnod rydych am ddechrau cael Credyd Pensiwn, mae gennych chi a'ch partner hawl i Fudd-dal Tai ar gyfer pobl sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn.

Os ydy'r ddau ohonoch wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso Credyd Pensiwn, gall y naill neu'r llall ohonoch wneud cais.

Mae partner yn golygu:

- person sy'n byw gyda chi sydd yn wŵr, gwraig neu bartner sifil i chi
- person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn gwpl priod

Dim ond un ohonoch all gael Credyd Pensiwn ar unrhyw un adeg. Caiff ei dalu ar gyfer y ddau ohonoch. Gallwn eich helpu i benderfynu pwy ddylai wneud cais.

Gallech hefyd gael Credyd Pensiwn hyd yn oed os ydych yn:

- byw gyda'ch teulu sydd wedi tyfu i fyny
- perchen ar eich cartref eich hun, neu'n
- ysbyty neu gartref gofal

## **Faint y gallaf ei gael?**

Mae faint o Credyd Pensiwn a gewch yn dibynnu ar faint o arian sydd gennych yn dod i mewn bob wythnos, a faint yr ydych wedi'i gynilo neu fuddsoddi. Os oes gennych bartner, byddwn yn ychwanegu eich incwm a'ch cyfalaf chi ac incwm a chyfalaf eich partner ynghyd wrth weithio allan eich Credyd Pensiwn.

Mae gan Gredyd Pensiwn 2 ran:

- Credyd Gwarantedig, sy'n ychwanegu at eich incwm wythnosol hyd at isafswm
- Credyd Cynilo, sy'n daladwy mewn rhai amgylchiadau lle mae rhywun wedi cynilo rhywfaint o arian tuag at eu hymddeoliad, fel ail bensiwn neu gynilion

Efallai y gallwch gael naill ai un rhan neu'r ddau.

Efallai y byddwch hefyd yn cael mwy o Gredyd Pensiwn os ydych chi neu'ch partner:

- yn ddifrifol anabl
- yn ofalwr
- yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc sy'n cymhwyso
- bod â chostau tai penodol

I gael gwybod faint o Gredyd Pensiwn y gallech ei gael, ewch i [www.gov.uk/pension-credit-calculator](http://www.gov.uk/pension-credit-calculator)

## **Rwyf eisoes yn cael Credyd Pensiwn ond nid yw fy mhartner wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso – a fydd y newidiadau o 15 Mai 2019 yn effeithio arnom ni?**

Os dechreuodd eich Credyd Pensiwn ar neu cyn 14 Mai 2019, byddwch yn barhau i'w gael cyhyd â'ch bod yn parhau i fod yn gymwys iddo heb seibiant.

Os byddwch yn stopio cael hawl iddo ar neu ar ôl 15 Mai 2019 am unrhyw reswm, ni fyddwch fel arfer yn gallu dechrau ei gael i chi a'ch partner eto cyn i'ch partner gyrraedd yr oedran cymhwyso. Ond efallai y byddwch yn dal gallu dechrau ei gael eto os oes gennych chi a'ch partner hawl i Fudd-dal Tai ar gyfer pobl sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar y diwrnod rydych am ddechrau cael Credyd Pensiwn.

## **Os nad wyf wedi gwneud cais am Gredyd Pensiwn cyn 15 Mai 2019, a fydd y rheolau newydd ar gyfer cyplau yn berthnasol i mi?**

Os byddwch yn gwneud cais am Gredyd Pensiwn i ddechrau ar neu ar ôl 15 Mai 2019, bydd y rheolau newydd yn berthnasol.

Os ydych yn meddwl y gallech fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn cyn 15 Mai 2019, ni ddylech oedi gwneud eich cais.

Gallwch ôl-ddyddio cais am Gredyd Pensiwn am hyd at 3 mis, cyn belled â'ch bod wedi bod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn ar y dyddiad cynharach. Bydd angen i chi wneud cais erbyn 13 Awst i fod yn gymwys o 14 Mai - y diwrnod cyn y bydd y rheolau newydd yn berthnasol.

## **Rwy'n bensiynwr sengl – a fyddaf yn dal i gael Credyd Pensiwn os byddaf yn dechrau byw gyda phartner sydd heb gyrraedd yr oedran cymhwyso?**

O 15 Mai 2019, os byddwch yn dechrau byw gyda phartner sydd heb gyrraedd yr oedran cymhwyso eto, bydd eich Credyd Pensiwn yn stopio. Os ydych hefyd yn cael Budd-dal Tai, bydd hwn yn stopio hefyd.

Mae hyn oherwydd bod rheolau newydd sy'n berthnasol o'r dyddiad hwnnw yn golygu bod yn rhaid i'r ddau bartner fod wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso cyn y gall cwpl gael Credyd Pensiwn. Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i Fudd-dal Tai i bobl sydd wedi

cyrraedd yr oedran cymhwys.

## **Beth os na allaf gael Credyd Pensiwn oherwydd, er fy mod wedi cyrraedd yr oedran cymhwys, nid yw fy mhartner wedi?**

Efallai y byddwch chi a'ch partner yn gallu cael Credyd Cynhwysol yn lle hynny.

Bydd angen i'r ddau ohonoch wneud cais, ond gan eich bod dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni fydd unrhyw amodau yn y gweithle yn cael eu cymhwysu i chi.

Gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar-lein neu drwy ffonio'r llinell gymorth rhadffôn.

Darganfyddwch fwy am sut i hawlio yn [www.gov.uk/universal-credit](http://www.gov.uk/universal-credit)

## **A allaf wneud cais am Gredyd Pensiwn os rwy'n dod o'r tu allan i Brydain Fawr?**

Pan fyddwch yn gwneud cais, mae'n rhaid i chi fod yn byw yng Nghymru, Lloegr, neu'r Alban. Mae'n rhaid i chi beidio â bod yn 'destun i reolau mewnfudo'; mae hyn yn golygu ni ddylid cael unrhyw gyfyngiadau a fyddai'n eich atal rhag derbyn cymorth ariannol gan y Wladwriaeth. Bydd angen i chi hefyd fodloni'r Prawf Preswyllo Cyson. Mae yna rai eithriadau i'r rheolau hyn.

Os oes unrhyw beth nad ydych yn siŵr amdano, gofynnwch i ni.

## **A allaf adael Prydain Fawr a dal cael Credyd Pensiwn?**

Efallai y byddwn yn talu Credyd Pensiwn am hyd at 4 wythnos tra byddwch i ffwrdd o Brydain Fawr dros dro a gallwn dalu am hyd at 8 wythnos os yw'r absenoldeb mewn cysylltiad â marwolaeth.

Os yw'r absenoldeb yn mewn cysylltiad â thriniaeth feddygol neu gyfnod gwella meddygol cymeradwy yn unig, efallai y byddwn yn talu Credyd Pensiwn am hyd at 26 wythnos.

Ond dylech ddweud wrthym cyn i chi fynd os ydych yn mynd i adael Prydain Fawr am unrhyw reswm o gwbl, hyd yn oed os mai dim ond am gyfnod byr y byddwch i ffwrdd. Mae hyn yn cynnwys os ydych yn mynd i Ogledd Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel.

## **Ni chefais Gredyd Pensiwn pan wnes i wneud cais o'r blaen. A allaf wneud cais eto?**

Gallwch, os bydd eich amgylchiadau personol neu'r cyfraddau budd-daliadau wedi newid, efallai y byddwch yn cael Credyd Pensiwn yn awr. Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys, peidiwch ag oedi gwneud cais.

## **A oes angen i mi roi gwybod i chi os bydd fy amgylchiadau'n newid?**

Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn ac yn cael Credyd Pensiwn, efallai na fydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni am newidiadau i sut yr ydych yn ariannu eich ymddeoliad am gyfnod penodol o amser - er enghraifft newidiadau i'ch buddsoddiadau cynilion a phensiynau galwedigaethol neu bersonol. Gelwir hyn yn 'Cyfnod Asesu Incwm', a gall barhau am hyd at 5 mlynedd. Os ydych dros 75 oed, nid oes terfyn amser.

Os nad oes gennych Gyfnod Asesu Incwm, dylech ddweud wrthym am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau.

Hyd yn oed os oes gennych Gyfnod Asesu Incwm, dylech ddweud wrthym ar unwaith am newidiadau heblaw am sut yr ydych yn ariannu eich ymddeoliad.

## **Newidiadau i Gredyd Pensiwn o 1 Chwefror 2019 i bobl sydd â phlant**

O fis Chwefror 2019, bydd Credyd Pensiwn yn cynnwys swm ychwanegol i'r rhai sy'n gyfrifol am blant. Efallai y bydd gennych hawl i'r swm ychwanegol hwn fel rhan o'ch Credyd Gwarantedig os:

- mae gennych y prif gyfrifoldeb am blentyn dan 16 oed neu berson ifanc sy'n cymhwyso, a
- bod y plentyn neu'r person ifanc sy'n cymhwyso fel arfer yn byw gyda chi

Mae person ifanc sy'n cymhwyso yn golygu person sy'n 16 i 19 oed ac mewn addysg llawn amser neu hyfforddiant cymeradwy.

Ni ddylech fod yn hawlio credydau treth neu wedi bod yn hawlio credydau treth yn y flwyddyn flaenorol. Os ydych yn hawlio cymorth i blant trwy Gredyd Treth Plant, bydd hwn yn parhau ac nid oes angen i chi gysylltu â ni. Os ydych wedi hawlio credydau treth yn y flwyddyn flaenorol, rhaid i chi gysylltu â CThEM yn gyntaf i weld a allant barhau â'ch cymorth.

## **Newidiadau i Gredyd Cynilo o 6 Ebrill 2016**

Bydd y rhan Credyd Cynilo o Gredyd Pensiwn wedi cau i bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

Os gwnaethoch chi a'ch partner (os oes gennych un), cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, gallwch barhau i gael Credyd Cynilo, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, waeth pryd yr ydych yn gwneud cais.

Os ydych yn gwpl lle mae un person yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016 a'r llall ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, gallwch dim ond cael Credyd Cynilo os yw un ohonoch:

- eisoes yn ei gael yn union cyn 6 Ebrill 2016 ac
- wedi cael hawl iddo ar bob adeg ers 6 Ebrill 2016

## **Newidiadau i Gyfnodau Incwm a Asesir (AIPs) o 6 Ebrill 2016**

Mae Cyfnod Asesu Incwm yn gyfnod pan nad oes yn rhaid i chi ddweud wrthym am newidiadau i'ch pensiynau, cynilion neu fuddsoddiadau. Mae eich llythyr dyfarniad Credyd Pensiwn yn dweud wrthych os oes gennych un.

O 6 Ebrill 2016, ni fydd unrhyw Gyfnodau Asesu Incwm newydd yn cael eu gosod.

Os oes gennych Gyfnod Asesu Incwm eisoes sy'n dod i ben rhwng 6 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019, bydd yn dod i ben - naill ai ar y dyddiad gwreiddiol ar eich llythyr dyfarnu Credyd Pensiwn, neu'n gynharach os bydd amgylchiadau eich cartref yn newid. Efallai y bydd eich Cyfnod Asesu Incwm yn dod i ben yn gynnar yn y modd hwn os, er enghraifft, rydych yn symud i gartref gofal neu os byddwch yn dod yn aelod o gwpl.

Os oes gennych Gyfnod Asesu Incwm eisoes sy'n dod i ben ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019, bydd yn dod i ben yn gynnar ac ni fydd yn cael ei adnewyddu.

Byddwn yn anfon llythyr atoch yn dweud wrthych y dyddiad gorffen newydd 6 mis o flaen llaw neu gallwch ddod o hyd i'r dyddiad newydd isod.

Os ydych dros 75 oed ac yn cael Cyfnod Asesu Incwm heb unrhyw ddyddiad gorffen, bydd yn aros yn ei le hyd nes bydd amgylchiadau eich cartref yn newid, er enghraifft, os byddwch yn symud i gartref gofal, neu os byddwch yn dod yn aelod o gwpl.

Pan fydd eich Cyfnod Asesu Incwm yn dod i ben, bydd angen i chi ddweud wrthym am unrhyw newid i'ch amgylchiadau, gan gynnwys pensiynau.

### **Dyddiadau gorffen newydd i Gyfnodau Asesu Incwm**

<b>Dyddiad dod i ben gwreiddiol rhwng:</b>	<b>Dyddiad dod i ben newydd</b>
1 i 14 Ebrill 2019	<b>14 Gorffennaf 2016</b>
15 i 30 Ebrill 2019	<b>28 Gorffennaf 2016</b>
1 i 14 Mai 2019	<b>14 Awst 2016</b>
15 i 31 Mai 2019	<b>28 Awst 2016</b>
1 i 14 Mehefin 2019	<b>14 Hydref 2016</b>
15 i 30 Mehefin 2019	<b>28 Hydref 2016</b>
1 i 14 Gorffennaf 2019	<b>14 Tachwedd 2016</b>
15 i 31 Gorffennaf 2019	<b>28 Tachwedd 2016</b>
1 i 14 Awst 2019	<b>14 Rhagfyr 2016</b>
15 i 31 Awst 2019	<b>28 Rhagfyr 2016</b>
1 i 14 Medi 2019	<b>14 Chwefror 2017</b>
15 i 30 Medi 2019	<b>28 Chwefror 2017</b>
1 i 14 Hydref 2019	<b>14 Mawrth 2017</b>
15 i 31 Hydref 2019	<b>28 Mawrth 2017</b>
1 i 14 Tachwedd 2019	<b>14 Ebrill 2017</b>
15 i 30 Tachwedd 2019	<b>28 Ebrill 2017</b>
1 i 14 Rhagfyr 2019	<b>14 Mehefin 2017</b>
15 i 31 Rhagfyr 2019	<b>28 Mehefin 2017</b>
1 i 14 Ionawr 2020	<b>14 Gorffennaf 2017</b>
15 i 31 Ionawr 2020	<b>28 Gorffennaf 2017</b>
1 i 14 Chwefror 2020	<b>14 Medi 2017</b>
15 i 29 Chwefror 2020	<b>28 Medi 2017</b>
1 i 14 Mawrth 2020	<b>14 Hydref 2017</b>
15 i 31 Mawrth 2020	<b>28 Hydref 2017</b>
1 i 14 Ebrill 2020	<b>14 Rhagfyr 2017</b>
15 i 30 Ebrill 2020	<b>28 Rhagfyr 2017</b>
1 i 14 Mai 2020	<b>14 Ionawr 2018</b>

Dyddiad dod i ben gwreiddiol rhwng:	Dyddiad dod i ben newydd
15 i 31 Mai 2020	<b>28 Ionawr 2018</b>
1 i 14 Mehefin 2020	<b>14 Mawrth 2018</b>
15 i 30 Mehefin 2020	<b>28 Mawrth 2018</b>
1 i 14 Gorffennaf 2020	<b>14 Ebrill 2018</b>
15 i 31 Gorffennaf 2020	<b>28 Ebrill 2018</b>
1 i 14 Awst 2020	<b>14 Mehefin 2018</b>
15 i 31 Awst 2020	<b>28 Mehefin 2018</b>
1 i 14 Medi 2020	<b>14 Gorffennaf 2018</b>
15 i 30 Medi 2020	<b>28 Gorffennaf 2018</b>
1 i 14 Hydref 2020	<b>14 Awst 2018</b>
15 i 31 Hydref 2020	<b>28 Awst 2018</b>
1 i 14 Tachwedd 2020	<b>14 Hydref 2018</b>
15 i 30 Tachwedd 2020	<b>28 Hydref 2018</b>
1 i 14 Rhagfyr 2020	<b>14 Tachwedd 2018</b>
15 i 31 Rhagfyr 2020	<b>28 Tachwedd 2018</b>
1 i 14 Ionawr 2021	<b>14 Ionawr 2019</b>
15 i 31 Ionawr 2021	<b>28 Ionawr 2019</b>
1 i 14 Chwefror 2021	<b>14 Chwefror 2019</b>
15 i 28 Chwefror 2021	<b>28 Chwefror 2019</b>
1 i 14 Mawrth 2021	<b>14 Mawrth 2019</b>
15 Mawrth i 5 Ebrill 2021	<b>28 Mawrth 2019</b>